# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Video Conference - Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Chwefror 2021

Amser: 11.07 - 12.24

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Mark Isherwood AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Caroline Jones AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Bethan Garwood, Dirprwy Glerc |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Y Rheolau Sefydlog

## 2.1 Cynnal Pleidleisiau Cyfrinachol gan ddefnyddio Dull Pleidleisio Electronig

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid defnyddio pleidleisio electronig o bell i gynnal y pleidleisiau cyfrinachol ar gyfer ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ar ddechrau'r Senedd nesaf, pe na bai pleidlais gorfforol yn ymarferol naill ai i bawb neu i rai Aelodau. Cymeradwyodd y Pwyllgor y dull arfaethedig o bleidleisio electronig o bell a nodir yn y papur fel un sy'n darparu'r lefelau dymunol o anhysbysrwydd a diogelwch.

## 2.2 Newidiadau amrywiol i'r Rheolau Sefydlog

Cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor i'r newidiadau arfaethedig i’r Rheolau Sefydlog.

## 2.3 Gweithdrefnau Adalw

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno darpariaeth i ganiatáu i'r Llywydd ddefnyddio disgresiwn i adalw'r Senedd ar gyfer unrhyw fater brys cyhoeddus, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weinidog a'r Pwyllgor Busnes.

## 2.4 Aelodaeth Pwyllgorau, Cadeiryddion a Chydbwysedd Gwleidyddol

Cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes ei benderfyniad i atgynhyrchu darpariaethau yn y Rheolau Sefydlog ar ddefnyddio fformiwla d'Hondt i benderfynu ar aelodaeth pwyllgorau a gynhwyswyd yn flaenorol yn y Ddeddf. Ni wnaeth y Pwyllgor gytuno i unrhyw newidiadau eraill.

## 2.5 Adolygu'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â grwpiau gwleidyddol

Trafododd y Pwyllgor i adolygu'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â grwpiau gwleidyddol

Gwnaeth y Trefnydd gynnig ar gyfer diwygio'r Rheol Sefydlog, a gefnogwyd gan Sian Gwenllian. Nid oedd Mark Isherwood a Caroline Jones yn cefnogi'r cynnig; maent yn cefnogi cadw'r Rheol Sefydlog bresennol.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â'r Aelodau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor, a bydd yn ystyried y sylwadau yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth.